

## CYNGOR GWYNEDD

### Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005

Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn  
(Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) (O.S.2007/702) (W.59)

### Gorchymyn Baeddu Tir gan Gŵn (Cyngor Gwynedd) 2013

Mae Cyngor Gwynedd, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

- 1 Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1<sup>af</sup> Ebrill 2013.
- 2 Mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i'r tir a bennir yn Yr Atodlen.

#### Y Tramgwydd

- 3 (1) Os bydd ci yn baw ar unrhyw adeg ar dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo a bod person sydd â chyfrifoldeb dros y ci ar y pryd yn methu â symud y baw ci oddi ar y tir ar unwaith, bydd y person hwnnw yn euog o drosedd oni bai-
  - (a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu
  - (b) bod perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.
- (2) Nid oes dim yn yr erthygl hon yn berthnasol i berson-
  - (a) sydd wedi'i gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; neu
  - (b) sydd ag anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, ei ddehurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario, neu i symud teclynau beunyddiol mewn modd arall, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen ragnodedig ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.
- (3) At ddibenion yr erthygl hon -
  - (a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar unrhyw adeg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;
  - (b) bydd gosod y baw ci mewn cynhwysydd a ddarperir ar y tir at y diben hwnnw, neu ar gyfer gwaredu gwastraff, yn symud ymaith digonol oddi ar y tir;
  - (c) ni fydd bod yn anymwybodol o'r baw (p'un ai oherwydd peidio â bod yn y cyffiniau ai peidio), na bod heb declyn i symud y baw ci ymaith neu ddull arall addas o wneud hynny yn esgus rhesymol dros fethu â symud y baw ci ymaith;

(ch) mae pob un o'r canlynol yn "elusen ragnodedig"-

(i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestredig rhif 700454);

(ii) Support Dogs (elusen gofrestredig rhif 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestredig rhif 803680).

## **Y Gosb**

- 4** Bydd person sy'n euog o drosedd dan erthygl 3 yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**Dyddiedig y**

**dydd hwn o**

**2013**

**Gosodwyd Sêl Gyffredin  
CYNGOR GWYNEDD  
ar hyn ym mhresenoldeb:**

.....  
**Swyddog Awdurdodedig**

**ATODLEN**

Tir y mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddo:

1. Yr holl dir sydd wedi'i ddisgrifio yn yr Atodlen ganlynol sy'n dir sy'n gorwedd o fewn ardal weinyddol y Cyngor

(i) sydd yn agored i'r awyr (sy'n cynnwys unrhyw dir dan do os yw'n agored i'r awyr ar o leiaf un ochr) ac

(ii) y mae gan y cyhoedd hawl neu ganiatâd i gael mynediad iddo (gyda neu heb daliad)

## CYNGOR GWYNEDD

### Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005

Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn  
(Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) (O.S.2007/702) (W.59)

#### Gorchymyn Cŵn ar Dennyn drwy Gyfarwyddyd (Cyngor Gwynedd) 2013

Mae Cyngor Gwynedd (a elwir yn y Gorchymyn hwn "yr Awdurdod") drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

- 1 Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2013.
- 2 Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r tir a bennir yn yr Atodlen .

#### Y Tramgwydd

- 3 (1) Bydd person sydd â chyfrifoldeb dros gi yn euog o dramgwydd os yw ar unrhyw adeg, ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, os nad yw'r person hwnnw yn cydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod i roi a chadw'r ci ar dennyn nad yw'n hwy na 2 o fetrau, oni bai-
  - (a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros beidio â gwneud hynny; neu
  - (b) bod perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.
- (2) At ddibenion yr erthygl hon -
  - (a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;
  - (b) ni chaiff swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod roi cyfarwyddyd dan y Gorchymyn hwn i roi ci ar dennyn a'i gadw arno oni fo'r cyfryw lyffethair yn rhesymol angenrheidiol i atal niwsans neu ymddygiad gan y ci sy'n debygol o beri aflonyddwch i unrhyw berson arall neu o darfu arno ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo neu beri trafferth i unrhyw anifail neu unrhyw aderyn neu o aflonyddu arnynt.
- (3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod" yw person sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod at ddibenion rhoi cyfarwyddiadau dan y Gorchymyn hwn.

## Y Gosb

- 4 Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan erthygl 3 yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Dyddiedig y

diwrnod hwn o

2013

**Gosodwyd Sêl Gyffredin  
CYNGOR GWYNEDD  
ar hyn ym mhresenoldeb:**

.....  
**Swyddog Awdurdodedig**

### **ATODLEN**

Tir mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddo:

1. Yr holl dir sydd wedi'i ddisgrifio yn yr Atodlen ganlynol sy'n dir sy'n gorwedd o fewn ardal weinyddol y Cyngor

(i) sy'n dir awyr agored (sy'n cynnwys unrhyw dir sydd wedi'i orchuddio os yw'n dir awyr agored ar o leiaf un ochr) ac

(ii) mae'r cyhoedd â hawl neu ganiatâd i gael mynediad ato (gyda thâl neu heb dâl)

## CYNGOR GWYNEDD

### Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005

Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn  
(Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) (O.S.2007/702) (W.59)

### Gorchymyn Gwahardd Cŵn (Cyngor Gwynedd) 2013

Mae Cyngor Gwynedd, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

- 1 Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 **Ebrill** 2013.
- 2 Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r tir a bennir yn Atodlen 1.

#### Y Tramgwydd

- 3 (1) Bydd person sydd â chyfrifoldeb dros gi yn euog o dramgwydd ar yr amserau a bennir yn Atodlen 2 os bydd y person hwnnw yn mynd â'r ci ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, neu yn caniatáu iddo fynd arno neu aros arno oni bai-
  - (a) bod gan yr person hwnnw esgus rhesymol dros wneud hynny; neu
  - (b) bod perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw wneud hynny.
- (2) Nid oes dim yn yr erthygl hon yn gymwys i berson-
  - (a) sydd wedi'i gofrestru fel person dall mewn cofrestr a luniwyd dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; neu
  - (b) sydd yn fyddar, mewn perthynas â chi wedi'i hyfforddi gan Hearing Dogs for Deaf People (elusen gofrestredig rhif 293358) ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth; neu
  - (c) sydd ag anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, ei ddehurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol neu ei allu i godi, i gario neu i symud teclynnau beunyddiol, mewn perthynas â chi wedi ei hyfforddi gan elusen ragnodedig ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.
- (3) At ddibenion yr erthygl hon -
  - (a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg onid oes rhy berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno; a
  - (b) mae pob un o'r canlynol yn "elusen ragnodedig"-



4. Pob maes chwarae wedi ei marcio ble mae gan y cyhoedd caniatâd neu hawl mynediad a thir o fewn 2 fetr i'r chwaraefa.

5. Yr holl gyfleusterau chwaraeon yn y sir, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) canolfannau hamdden, parciau pêl aml-ddefnydd, cyrtiau tenis, lawntiau bowlio, traciau seiclo a rhedeg, cyrtiau pêl-rwyd a phêl-fasged a pharciau sglefrio.

6. Yr holl draethau gan gynnwys glan y môr, y blaendraeth ac unrhyw lethr neu risiau sy'n arwain at y traethau yn y lleoliadau a nodir isod ac a amlinellir yn fanylach mewn coch yn y cynlluniau yn yr atodiadau perthnasol:

<b>Lleoliad</b>	<b>Cyfeirnod</b>
Aberdyfi	6.1
Tywyn	6.2
Y Friog / Fairbourne	6.3
Abermaw	6.4
Bennar (Morfa Dyffryn)	6.5
Llandanwg	6.6
Harlech	6.7
Morfa Bychan (Black Rock Sands)	6.8
Criccieth - Traeth y Promenâd	6.9
Criccieth Gorllewin - Traeth y Marine	6.10
Pwllheli - Glan Don	6.11
Pwllheli - Marian-y-De	6.12
Traeth Abersoch	6.13
Aberdaron	6.14
Porth Oer	6.15
Porth Towyn	6.16
Morfa Nefyn	6.17
Dinas Dinlle	6.18
Nefyn	6.19

## **ATODLEN 2**

Amseroedd pan fydd y Tramgwydd yn berthnasol:

Bydd pwyntiau 1 i 5 Atodlen 1 y Gorchymyn Hwn yn berthnasol bob amser.

Bydd pwynt 6 Atodlen 1 ddim ond yn berthnasol rhwng 1 Ebrill a 30 Medi, gan gynnwys y dyddiadau hynny, mewn unrhyw flwyddyn.